| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **BWRDD Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD:** | **19 CHWEFROR 2008** |
| **TEITL:** | **DANGOSYDDION DARBODUS** |
| **PWRPAS:** | **ADRODD AR WIR SEFYLLFA 2006/07 A GOSOD DANGOSYDDION AR GYFER Y FLWYDDYN GYFREDOL A'R BLYNYDDOEDD I DDOD** |
| **AWDUR:** | **DAFYDD L EDWARDS - PENNAETH CYLLID** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

## 1 CEFNDIR

1.1 Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol 2003 fframwaith ddarbodus newydd ar gyfer buddsoddiad cyfalaf awdurdodau lleol. Mae'r trefniadau newydd, oedd yn weithredol o 1 Ebrill 2004, wedi disodli'r cyfundrefnau rheoliadol cymhleth oedd yn rheoli gwariant cyfalaf awdurdodau lleol gyda system newydd sy'n bennaf seiliedig ar hunanreolaeth gan awdurdodau lleol eu hunain.

1.2 Datblygwyd y *Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities* ('y Côd') gan CIPFA fel côd ymarfer proffesiynol, gyda chefnogaeth statudol, i gefnogi awdurdodau lleol wrth gymryd y penderfyniadau hyn. Amcanion allweddol y Côd yw sicrhau, o fewn fframwaith eglur, bod cynlluniau buddsoddi cyfalaf awdurdodau lleol yn fforddiadwy, darbodus a chynaliadwy; y gwneir penderfyniadau rheolaeth trysorlys yn unol ag arferion proffesiynol da; ac y caiff cynllunio strategol lleol, cynllunio rheoli asedau a gwerthuso dewisiadau priodol eu cefnogi.

1.3 Mynna'r Côd bod awdurdodau lleol, cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol, yn gosod rhai dangosyddion darbodus penodol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a blynyddoedd dilynol. Yn ogystal, rhaid adrodd ar wir lefel dangosyddion y flwyddyn flaenorol ac adolygu, a diwygio os oes angen, dangosyddion y flwyddyn gyfredol.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys argymhellion ynghylch y dangosyddion darbodus i'w gosod gan y Cyngor ar gyfer 2008/09 a blynyddoedd dilynol. Fe'u seilir ar y cynigion yn yr adroddiadau cyllideb cyfalaf a refeniw sydd mewn man arall ar y rhaglen, rhagamcanion cyfredol o ran benthyca allanol, costau llog a llog derbyniadwy, a gwybodaeth arall sydd ar gael i'r awdurdod ar hyn o bryd. Dylid nodi fodd bynnag bod llawer o'r ystyriaethau perthnasol, gan gynnwys maint cefnogaeth y Cynulliad tuag at fuddsoddiad cyfalaf mewn blynyddoedd i ddod, un ai ddim ar gael ar hyn o bryd neu yn destun rhywfaint o ansicrwydd; bu rhaid amcangyfrif y ffactorau hyn ar sail yr wybodaeth orau sydd ar gael ynghyd ag asesiad priodol o risg.

1.5 Yn unol â gofynion y Côd mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys gwir ffigyrau dangosyddion darbodus 2006/07 ac amcangyfrifon ar gyfer dangosyddion 2007/08.

## 2 DANGOSYDDION DARBODUS ARFAETHEDIG

### 2.1 Gwariant Cyfalaf

- Gwir wariant cyfalaf 2006/07 a'r amcangyfrifon yr argymhellir eu derbyn ar gyfer gwariant cyfalaf y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd dilynol yw:

| | **Gwariant Cyfalaf** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2006/07 £000 Gwir** | **2007/08 £000 Amcan** | **2008/09 £000 Amcan** | **2009/10 £000 Amcan** | **2010/11 £000 Amcan** |
| Cronfa Gyff. | 33,432 | 35,077 | 43,447 | 29,832 | 22,955 |
| Cyfrif Ref. Tai | 5,628 | 6,200 | 5,600 | 5,600 | 5,600 |
| **Cyfanswm** | **39,060** | **41,277** | **49,047** | **35,432** | **28,555** |

### 2.2 Cymhareb Costau Ariannu i Lif Refeniw Net

- Amcangyfrifon y gymhareb costau ariannu i lif refeniw net ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd dilynol, a gwir ffigyrau 2006/07, yw:

| | **Cymhareb costau ariannu i lif refeniw net** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2006/07 Gwir** | **2007/08 Amcan** | **2008/09 Amcan** | **2009/10 Amcan** | **2010/11 Amcan** |
| Cronfa Gyff. | 4.94% | 4.42% | 4.94% | 4.96% | 4.76% |
| Cyfrif Ref. Tai | 12.06% | 10.02% | 8.39% | 7.05% | 5.78% |

- Mae'r rhagamcanion costau ariannu yn cynnwys yr ymrwymiadau presennol ynghyd â chynigion yr adroddiadau cyllideb a gyflwynir mewn man arall ar y rhaglen.

- Dylid nodi bod y gymhareb ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai yn gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd nesaf oherwydd nad ydynt bellach yn defnyddio benthyciadau i ariannu gwariant cyfalaf, ond yn hytrach y grant Lwfans Atgyweiriadau Mawr. Mae hyn yn cael yr effaith o leihau eu Gofyn Cyllido Cyfalaf (gweler 2.3 isod), sydd yn cael effaith amlwg ar eu costau ariannu.

### 2.3 Gofyn Cyllido Cyfalaf

- Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf yn adlewyrchu angen sylfaenol yr awdurdod i fenthyca i ddibenion cyfalaf. Amcangyfrifon y Gofyn Cyllido Cyfalaf diwedd-blwyddyn ar gyfer y flwyddyn gyfredol a blynyddoedd dilynol, a gwir lefel y Gofyn Cyllido Cyfalaf ar 31 Mawrth 2007 yw:

| | Gofyn Cyllido Cyfalaf | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2006/07 £000 Gwir** | **2007/08 £000 Amcan** | **2008/09 £000 Amcan** | **2009/10 £000 Amcan** | **2010/11 £000 Amcan** |
| Cronfa Gyff. | 137,786 | 140,572 | 142,407 | 144,124 | 145,764 |
| Cyfrif Ref. Tai | 16,991 | 15,445 | 13,930 | 12,445 | 10,989 |

**2.4 Benthyca Net a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf**

- Mae'r Côd yn cynnwys y canlynol fel dangosydd darbodaeth allweddol:

  *"Er mwyn sicrhau mai at ddibenion cyfalaf yn unig y bydd benthyca net dros y tymor canolig, dylai'r awdurdod lleol sicrhau nad yw benthyca allanol net, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y Gofyn Cyllido Cyfalaf ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw Ofyn Cyllido Cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ddilynol."*

- Gallaf adrodd na chafodd yr awdurdod anhawster wrth gwrdd â'r gofyn hwn yn 2006/07, ac na ragwelir unrhyw anawsterau ar gyfer y flwyddyn gyfredol na'r blynyddoedd dilynol. Mae'r rhagolwg hwn yn cymryd i ystyriaeth ymrwymiadau presennol, cynlluniau cyfredol, a'r argymhellion sydd yn yr adroddiadau cyllideb mewn man arall ar y rhaglen.

**2.5 Dyled Allanol**

- Argymhellir bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r Terfynau Awdurdodedig canlynol ar gyfer cyfanswm ei ddyled allanol gros o fuddsoddiadau ar gyfer y tair mlynedd ariannol nesaf, gan gadw'r terfyn ar gyfer y flwyddyn gyfredol fel yr adroddwyd llynedd

| | Terfynau Awdurdodedig ar gyfer dyled allanol | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2007/08 £000** | **2008/09 £000** | **2009/10 £000** | **2010/11 £000** |
| Benthyciadau | 170,000 | 170,000 | 170,000 | 170,000 |
| Ymrwymiadau hir-dymor eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **170,000** | **170,000** | **170,000** | **170,000** |

- Gallaf adrodd bod y Terfynau Awdurdodedig hyn yn gyson gydag ymrwymiadau presennol a chynlluniau cyfredol yr awdurdod, y cynigion gwariant / cyllido cyfalaf a gyflwynir mewn man arall ar y rhaglen, a'r datganiad polisi ac arferion rheolaeth trysorlys arfaethedig. Cadarnhaf eu bod wedi'u seilio ar y sefyllfa fwyaf tebygol, gochelgar ond nid 'gwaethaf posibl', gyda hefyd rhywfaint o le yn ychwanegol at hyn ar gyfer rheolaeth weithredol, er enghraifft ar gyfer symudiadau arian anarferol. Cymerwyd dadansoddiad risg a strategaethau rheoli risg i ystyriaeth; yn ogystal â chynlluniau gwariant cyfalaf, amcangyfrifon y Gofyn Cyllido Cyfalaf a rhagamcanion anghenion llif arian ar gyfer pob diben.

- Fe ofynnir i'r Bwrdd nodi mai'r Terfyn Awdurdodedig ar gyfer 2008/09 a gyflwynir uchod fydd y terfyn statudol a osodir dan adran 3(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

- Argymhellir hefyd bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r Ffin Weithredol canlynol ar gyfer dyled allanol dros yr un cyfnod. Seilir y cynigion ar gyfer Ffin Weithredol dyled allanol ar yr un tybiaethau â'r Terfyn Awdurdodedig ond mae'n adlewyrchu'n uniongyrchol fy amcangyfrif o'r sefyllfa fwyaf tebygol, gochelgar ond nid 'gwaethaf posibl', heb y lle ychwanegol a geir yn y Terfyn Awdurdodedig ar gyfer er enghraifft symudiadau arian anarferol, ac mae'n cyfateb i uchafswm y ddyled allanol a geir gan yr amcangyfrif hwn. Bwriadaf ddefnyddio'r Ffin Weithredol fel arf rheolaeth allweddol ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn.

| **Ffin Weithredol ar gyfer dyled allanol** | | | |
|---|---|---|---|
| | **2008/09 £000** | **2009/10 £000** | **2010/11 £000** |
| Benthyciadau | 165,000 | 165,000 | 165,000 |
| Ymrwymiadau hir-dymor eraill | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **165,000** | **165,000** | **165,000** |

- Gwir ddyled allanol y Cyngor ar 31 Mawrth 2007 oedd £149.8 miliwn, yn cynnwys £149.8 miliwn o fenthyciadau a dim ymrwymiadau hir-dymor eraill. Dylid nodi nad oes modd cymharu gwir ddyled allanol yn uniongyrchol â'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol, gan bod gwir ddyled allanol yn adlewyrchu'r sefyllfa ar un adeg neilltuol.

**2.6 Effaith ychwanegol penderfyniadau buddsoddi cyfalaf ar Dreth y Cyngor / rhenti tai**

- Amcangyfrifir mai yr effaith ychwanegol ar Dreth Gyngor Band D Cyngor Gwynedd ar gyfer 2008/09, 2009/10 a 2010/11 yn deillio o'r ychwanegiadau / newidiadau arfaethedig i'r rhaglen gyfalaf bresennol (fel a gynigir yn adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Polisi) yw £1.74, £7.70 a £14.20 yn y drefn honno.

- Mewn perthynas â'r Cyfrif Refeniw Tai, amcangyfrifir nad oes unrhyw effaith ariannol ychwanegol ar gyfartaledd y rhent tai wythnosol ar gyfer 2008/09, 2009/10 na 2010/11 yn deillio o'r ychwanegiadau / newidiadau arfaethedig i'r rhaglen gyfalaf bresennol (fel a gynigir yn adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Polisi).

**2.7 Rheolaeth Trysorlys**

- Mae un o'r dangosyddion darbodus a osodir yn y Côd yn gofyn i awdurdodau lleol ddatgan a ydynt wedi mabwysiadu'r côd ymarfer *CIPFA Code of Practice for Treasury Management in the Public Services*.

- Mae'r Cod Ymarfer wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor ers 4 Mawrth 2004. Ond yn yr adroddiad ar Reolaeth Trysorlys a gyflwynir mewn man arall ar y rhaglen, mae yna fan newidiadau i'r Atodleni i'r Cod yma. Rwyf yn argymell bod y Bwrdd yn mabwysiadu'r newididau uchod yn ffurfiol, ac yn amodol ar dderbyn cymeradwyaeth, rhagwelir y gellir bodloni gofynion y dangosydd hwn.

**2.8 Agoredrwydd i newidiadau graddfeydd llog**

- Argymhellaf i'r Bwrdd osod terfyn uchaf ar ei agoredrwydd i newidiadau graddfeydd llog sefydlog ar gyfer 2008/09, 2009/10 a 2010/11 sef 100% o'i daliadau llog net.

- Argymhellaf ymhellach i'r Bwrdd osod terfyn uchaf ar ei agoredrwydd i newidiadau graddfeydd llog cyfnewidiol ar gyfer 2008/09, 2009/10 a 2010/11 sef 50% o'i daliadau llog net.

- Golyga hyn reoli agoredrwydd i newidiadau graddfeydd llog sefydlog o fewn yr amrediad 50% i 100% a rheoli agoredrwydd i newidiadau graddfeydd llog cyfnewidiol o fewn yr amrediad 0% i 50%.

**2.9 Trefn aeddfedrwydd benthyciadau**

- Argymhellaf i'r Bwrdd osod terfynau uchaf ac isaf ar gyfer trefn aeddfedrwydd ei fenthyciadau fel a ganlyn.

**Swm y benthyca arfaethedig ar gyfradd sefydlog yn aeddfedu ym mhob cyfnod fel canran o gyfanswm y benthyca arfaethedig ar gyfradd sefydlog**

| | Terfyn uchaf | Terfyn isaf |
|---|---:|---:|
| o fewn 12 mis | 15% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 15% | 0% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 23% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 26% | 0% |
| 10 mlynedd a hwy | 90% | 22% |

**2.10 Cyfanswm prifsymiau a fuddsoddir am gyfnodau hwy na 364 dydd**

- Argymhellaf i'r Bwrdd osod y terfynau uchaf canlynol ar gyfer aeddfedrwydd symiau a fuddsoddir yn ystod 2008/09 am gyfnodau hwy na 364 dydd.

  Aeddfedrwydd terfynol heibio 31/3/09 = £20m
  Aeddfedrwydd terfynol heibio 31/3/10 = £15m
  Aeddfedrwydd terfynol heibio 31/3/11 = £10m.

**3 ARGYMHELLIAD**

Bod y Bwrdd yn argymhell i'r Cyngor fabwysiadu'r dangosyddion darbodus arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, y flwyddyn nesaf a'r blynyddoedd dilynol fel a gyflwynir yn 2.1 – 2.10 uchod.

**A. Barn yr Aelod Lleol/ Views of the Local Member**:

---

**B. Barn y Swyddogion Statudol / The Views of the Statutory Officers:**

1. Prif Weithredwr / Chief Executive:

Mae'r adroddiad sydd gerbron yn un pur dechnegol a mae'r ffigurau yn adlewyrchu'r hyn sydd yn y Strategaeth Ariannol sydd gerbron y Bwrdd.

*The report to be presented is purely technical and the figures reflect the contents of the Financial Strategy report to be presented to the Board.*

2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:

Er fod yr adroddiad yn mynd gerbron y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol ar 14 Chwefror, 2008, mae'n amlwg bydd rhaid i'r swyddogion proffesiynol egluro cynnwys yr adroddiad. Cyfeiriaf fod angen mabwysiadu'r newidiadau yn ffurfiol fel argymhellwyd ym mharagraff 2.7.

*Although the report will be presented to the Resources and Corporate Scrutiny Committee on 14 February 2008, it is clear that the professional officers will have to explain the report's content. I refer to the need for the changes to be formally adopted as recommended in paragraph 2.7.*

3. Prif Swyddog Cyllid / Chief Finance Officer:

Awdur yr adroddiad / *Author of the report.*

---

**C. Papurau Cefndir / Background Papers**

---

**CH. Goblygiadau Polisi / Policy Implications**